DWP

Department for Work and Pensions

Adran Gwaith a Phensiynau

Pensiwn y wladwriaeth ar gyfer y 21 ganrif:

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau gan orchymyn Ei Mawrhydi
Gorffennaf 2011

Cm 8131

Pensiwn y wladwriaeth ar gyfer y 21 ganrif:

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau gan orchymyn Ei Mawrhydi
Gorffennaf 2011

Cm 8131

© Hawlfraint y Goron 2011

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan dermau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Dylai unrhyw ymholiad ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael ei anfon atom yn:

State Pension Reform Consultation Team
Pensions Analysis and Incomes Division
Department for Work and Pensions
5th Floor
Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA

E-bost: statepension.reformconsultation@dwp.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn www.dwp.gov.uk/state-pension-21st-century

ISBN: 978-1-84947-694-2

ID: 2440574 07/11

Cynnwys

Rhagair **3**

Crynodeb Gweithredol **4**

Rhagair

Dylai'r pensiwn y wladwriaeth ddarparu lefel sylfaenol o incwm, sylfaen gadarn i gynilo ar gyfer ymddeoliad a dylai fod yn gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol. Ein blaenoriaeth gyntaf oedd sicrhau lefelau teg o gefnogaeth i bensiynwyr presennol drwy adfer y cyswllt enillion i'r Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Mae cyflwyniad y warant driphlyg yn golygu bydd person sy'n ymddeol yn 2011/12 yn derbyn ar gyfartaledd dros £10,000 yn fwy o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn ystod eu hymddeoliad nag y buasent wedi ei wneud cyn i ni wneud y newid hwn. O ganlyniad o'r ymrwymiad hwn, bydd gwariant ar y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn cynyddu dros £5 biliwn erbyn 2020, a £45 biliwn yn fwy dros y 15 mlynedd nesaf, nag y buasai wedi ei wneud o dan yr hen gyswllt prisiau. Rydym hefyd wedi gwneud yn glir ein hymrwymiad i gadw presgripsiynau a thrwyddedau teledu di-dâl ar gyfer pobl dros 75 oed.

Ond mae'n rhaid i ni edrych ymlaen a sicrhau ein bod yn darparu sicrwydd i bensiynwyr y dyfodol. Tra mae disgwyliad einioes wedi gwella, mae cynilo pensiwn yn parhau i ostwng. Ac mae newidiadau niferus i system pensiwn y wladwriaeth dros y degawdau diwethaf yn golygu nad yw llawer o bobl yn deall beth y gallent ei ddisgwyl gan y wladwriaeth yn ystod ymddeoliad. Blwyddyn nesaf rydym yn cyflwyno cofrestriad awtomatig i mewn i bensiynau gweithle, a bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb dros gynilo. Beth rydym angen ei wneud nawr yw asesu p'un ai yw'r pensiwn y wladwriaeth yn darparu'r sylfaen sydd ei angen er mwyn cefnogi pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb personol.

Gwelwyd dechrau cyfnod ymgynghori deuddeg wythnos gyda chyhoeddiad y Papur Gwyrdd 'Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer y 21ain ganrif' ar 4 Ebrill eleni ble ofynnom i sefydliadau ac unigolion i ymateb i'n cynigion i ddarparu pensiwn y wladwriaeth symlach a thecach, a rheoli newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cwrddais â nifer o sefydliadau i archwilio ein cynigion ar gyfer diwygio, a chynnal trafodaethau bywiog ynglŷn â'n syniadau. Roedd y cyfarfodydd hyn yn llawn gwybodaeth, yn dangos i mi'r ystod o farn sy'n bodoli ar y pwnc hwn yn ogystal â'r heriau enfawr mae unrhyw ddiwygiad o'r system pensiwn y wladwriaeth ei gyflwyno.

Cafwyd nifer dda o ymatebion ysgrifenedig o'r ymgynghoriad hwn – dros 100 gan sefydliadau, a dros 1,600 gan unigolion. Roedd yr ymatebion yn dangos fod yna gefnogaeth eang i ddiwygio'r system pensiwn y wladwriaeth, ac yn enwedig i'r syniad o bensiwn haen sengl. Ond maent hefyd yn amlygu faint yn fwy o fanylion sydd i feddwl amdanynt a gweithio drwyddynt cyn gall unrhyw benderfyniad cadarn gael ei wneud ar p'un ai i ddilyn diwygiad.

Mae'r crynodeb o ymatebion hwn yn amlinellu fod nifer o sylwadau gan sefydliadau ac unigolion a oedd wedi ymateb i'n cais am safbwyntiau. Ni fwriedir iddo fod yn ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad gan nad yw'n gosod allan beth fyddwn yn ei wneud nesaf. Rydym angen meddwl yn ofalus am y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Mae'r ymatebion rydym wedi eu derbyn yn ychwanegiad canolog i'r ddadl, ac rwy'n hynod o ddiolchgar i'r nifer o unigolion a sefydliadau a gymerodd yr amser i ymateb.



Steve Webb AS
Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyrdd 'Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer y 21 Ganrif' ar 4 Ebrill 2011. Cychwynnodd argraffiad y Papur Gwyrdd ymgynghoriad deuddeg wythnos a ddaeth i ben ar 24 Mehefin 2011.

Ymgynghorodd y Papur Gwyrdd ar ddau opsiwn eang ar gyfer diwygio system pensiwn y wladwriaeth i bensiynwyr y dyfodol a sut y dylai newidiadau yn y dyfodol i oedran Pensiwn y Wladwriaeth gael eu rheoli, gan gymryd i ystyriaeth cynyddiadau mewn disgwyliad einioes. Rhoddodd fraslun lefel uchel ar bob opsiwn ond nid oedd yn cynnwys asesiad manwl o'r effaith posibl.

Diwygio Pensiwn y Wladwriaeth

Y ddau opsiwn wedi eu gosod allan yn y Papur Gwyrdd ar gyfer diwygio'r system Pensiwn y Wladwriaeth oedd:

- **Opsiwn un – "cyfradd wastad gyflymach"** – cyflymu'r symudiad i bensiwn y wladwriaeth gyfradd wastad dwy haen. Mae'r opsiwn hwn yn golygu y byddai Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn mynd yn gyfradd wastad (hynny yw, ddim mwyach yn berthnasol i incwm) erbyn 2020 yn lle yn fuan yn y 2030au. Byddai Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn aros ar wahân i'r Ail Bensiwn y Wladwriaeth.
- **Opsiwn dau – "y pensiwn rheng sengl"** – cyfuno'r Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ac Ail Bensiwn y Wladwriaeth i mewn i un pensiwn y wladwriaeth.

Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Mae'r Papur Gwyrdd yn gosod allan opsiynau ar gyfer peirianwaith mwy awtomatig i newidiadau yn y dyfodol i oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Beth ddywedodd sefydliadau ac unigolion

Roedd cydsyniad eang ymysg sefydliadau a ymatebodd, heb ystyried pa opsiwn oedd y gorau ganddynt, y dylai'r system bensiwn y wladwriaeth bresennol gael ei adolygu, yn bennaf oherwydd ei chymhlethdod.

Dangosodd yr ymgynghoriad gefnogaeth eang i'r opsiwn haen sengl, gydag o gwmpas tri chwarter o sefydliadau a ymatebodd yn cefnogi pensiwn haen sengl mewn egwyddor.

Roedd ychydig o gefnogaeth i'r opsiwn cyfradd wastad cyflymach. Dywedodd o gwmpas hanner o'r sefydliadau a ymatebodd na fyddant yn ei gefnogi, yn bennaf oherwydd nad oedd yn dod â chymhlethdodau'r system bresennol i ben. Dim ond dau ddywedodd pe byddant yn cael y dewis rhwng cyfradd wastad gyflymach a haen sengl y buasent yn dewis cyfradd wastad gyflymach. Eu rhesymau oedd cynyddiadau posibl mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol i'r hunan gyflogedig, a'r gred y byddai cadw system ddwy haen yn gadael gwell hyblygrwydd polisi yn y dyfodol. Nid oedd rhif bychan o sefydliadau yn cefnogi'r un o'r ddau opsiwn ond yn lle hynny yn dweud y byddai'n well ganddynt i'r system bresennol barhau.

Dynododd ymatebwyr nifer o faterion penodol ynglŷn â'r diwygiadau a gynigir roeddynt yn teimlo oedd angen asesiad pellach.

Trawsnewid a chyfathrebu o dan yr opsiwn haen sengl

Dywedodd llawer o ymatebwyr y byddai trawsnewid cymhleth a hir i system newydd. Gallai hyn danseilio egwyddorion symlrwydd ac eglurder

Gwelwyd cyfathrebu ag unigolion fel sialens fawr fan hyn. Nododd y mwyafrif a gododd y mater o drawsnewid ei gymhlethdod anochel a'r her o sut i gyfathrebu trawsnewid i gyflogwyr, cyflogai ac aelodau'r cyhoedd.

Gorffen eithrio o dan yr opsiwn haen sengl

Derbyniom ymateb gan fwy na 50 o gyflogwyr a sefydliadau'n cynrychioli cyflogwyr ar orffen eithrio. Dywedodd llawer y byddai gorffen eithrio ar gyfer cynlluniau Budd-dal Diffiniedig (a fyddai'n rhan angenrheidiol o'r opsiwn haen sengl) yn cael goblygiadau sylweddol i gyflogwyr, cynlluniau ac aelodau, a byddai angen ei reoli'n ofalus. Nid oedd y mwyafrif o ymatebwyr yn gweld yr heriau'n gysylltiedig â gorffen eithrio yn anorchfygol, nac yn rheswm i beidio canlyn diwygiad. Roedd sylwadau ar eithrio gan unigolion yn gymharol isel.

Nododd nifer o sefydliadau os oedd gorffen eithrio i gynlluniau Budd-dal Diffiniedig am fod yn rhan anochel o symleiddio'r system pensiwn y wladwriaeth, roedd nifer o ffyrdd y gallai'r Llywodraeth helpu cyflogwyr, cyflogai a chynlluniau i wneud y trawsnewid i system newydd. Mynegodd undebau llafur a wnaeth ymateb bryder y byddai gorffen eithrio yn cychwyn cau'r cynlluniau Budd-dal Diffiniedig. Roedd ganddynt hefyd bryder ynglŷn â'r cynyddiadau posibl mewn cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol i gyflogai.

Budd-daliadau meini prawf moddion

Dim ond lleiafrif o sefydliadau a wnaeth ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiwn ynglŷn â sut dylai budd-daliadau meini prawf moddion gefnogi system pensiwn y wladwriaeth newydd. Ymhlith y rhai'n ymateb, roedd cydnabyddiaeth eang y dylai rhyw ffurf o rwyd arbed aros mewn system bensiwn wedi'i diwygio.

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo nad oedd mynediad i a rhan budd-daliadau pasbort fel Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor ddim wedi cael eu cyfeirio atynt yn ddigonol yn y Papur Gwyrdd ac angen cael eu hegluro ymhellach.

Newidiadau yn y dyfodol i oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Gofynnodd y Papur Gwyrdd am safbwyntiau ar natur y mecanwaith mwy awtomatig a allai gael ei ddefnyddio i benderfynu ar newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth y dyfodol, gan ddisgrifio rhan fformiwla yn gysylltiedig â disgwyliad einioes ac adolygiad cyfnodol fel elfennau posibl mewn unrhyw agwedd. Yn gyffredinol, roedd lefel uchel o gefnogaeth am fecanyddiaeth mwy awtomatig i reoli cynyddiadau'r dyfodol mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn honni y byddai cynnwys rhyw ffurf o adolygiad cyfnodol yn werthfawr oherwydd fel rhan o ddadansoddiad data disgwyliad einioes, byddai'n gadael mewnbwn arbenigol ar ogwydd disgwyliad einioes a ffactorau eraill fel disgwyliad einioes iach a chyflwr marchnad llafur. Gwelodd nifer lai gwerth fformiwla fyddai'n sicrhau cyswllt agos rhwng disgwyliad einioes ac oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Roedd safbwyntiau ynglŷn â chyfnod hysbysu addas ar gyfer newid mewn oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn amrywio, gyda'r mwyafrif o unigolion a sefydliadau yn dweud fod 10 mlynedd o hysbysiad yn addas.

Pensiynwyr presennol

Roedd y mwyafrif o'r 1,600 o ymatebion a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd yn mynegi siomedigaeth gref y byddai'r cynigion ar gyfer adolygu ond yn effeithio ar bensiynwyr y dyfodol. Roedd y mwyafrif mawr o'r ymatebion hyn yn dod gan bobl a oedd yn bensiynwyr eu hunain.

Yn arbennig, roedd 1000 o'r 1,600 o ymatebion gan unigolion yn berthnasol i'r mater o "bensiynau wedi eu rhewi" i bensiynwyr y DU yn byw dramor, gydag unigolion yn galw i'w Pensiynau sylfaenol y Wladwriaeth gael eu codi yn yr un ffordd â'r pensiynwyr hynny'n byw yn y DU.

Dadansoddiad o effeithiau'r cynigion

Dywedodd llawer o sefydliadau na allent gefnogi'n llawn unrhyw opsiwn hyd nes iddynt weld dadansoddiad manwl o effeithiau'r cynigion; yn arbennig mwy o wybodaeth ar sut byddai hyn yn effeithio ar bensiynwyr dyfodol unigol.

Ceisiodd y Papur Gwyrdd ymgynghori ar yr egwyddorion eang o ddiwygio a darparu amlinelliad lefel uchel ar bob opsiwn ond nid oedd yn cynnwys asesiad manwl o'r effeithiau posibl,

Os bydd y Llywodraeth yn penderfynu i fynd â'r cynigion ymhellach ar gyfer diwygio pensiwn y wladwriaeth, byddai cyhoeddiad o Bapur Gwyn ac Asesiad Effaith llawn yn dilyn fel rhan o'r broses arferol.

Gwahoddir sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd gyda diddordeb i gadw i fyny ag unrhyw ddatblygiadau yn www.dwp.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-21-ganrif

(h) Hawlfraint y Goron 2011

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

978-1-84947-694-2

www.dwp.gov.uk/cymraeg